# Darn gwrando

(Estynnol, sbardun 3)

Bu ein gohebydd yn holi pobl ar y stryd yn Llandudno a dyma eu hymateb:

**Hywel Hughes**
Postman ydw i felly dw i'n gobeithio ddim neu byddaf yn ddi-waith! Bydd yn rhaid i rywun gario parseli oherwydd ellwch chi ddim anfon y rheini trwy gyfrifiadur!

**Sam Owen**
Mae'n anodd gen i gredu oherwydd mae cwmnïau a busnesau yn dibynnu ar y post, a beth fyddai'n digwydd pan mae'n rhaid arwyddo eich bod wedi derbyn llythyr? Doeddwn i ddim adref pan gyrhaeddodd fy mhasport newydd ac roedd yn rhaid i mi drefnu dyddiad arall pan fyddwn adref i arwyddo amdano. Fedrwch chi ddim arwyddo ar y we.

**Gwion Thomas**
Fydda i byth yn gyrru llythyrau. Rydw i'n talu biliau ar-lein ac yn adnewyddu pethau fel treth car ar lein.Maen nhw'n rhatach felly. Mae'n achub yr amgylchedd hefyd. Llawer llai o dorri coed i greu papur. Mae fy mamgu, ar y llaw arall, yn ysgrifennu at ei ffrindiau yn aml ac yn postio tri neu bedwar llythyr yr wythnos! Gyda phris stampiau mor uchel mae'n costio ffortiwn iddi! Ond rydw i'n trysori ei chardiau penblwydd a'i chardiau Nadolig hi yn fwy na rhai neb arall. Maen nhw'n bersonol ac agos atoch, ddim fel y rhai amhersonol a di-deimlad ddaw ar-lein.

**Natalie Ward**
Mae pethau yn newid. Rhywbryd rydw i'n meddwl y bydd y grefft o ysgrifennu gyda llaw yn dod i ben. Bydd popeth yn cael ei ysgrifennu yn electronig. Ond bydd yn rhaid gyrru negeseuon at bobl a bydd hynny yn digwydd trwy'r post a thrwy ebost. Wedi'r cyfan, does gan bawb ddim cyfrifiadur neu fynediad i'r we.

**Ifor Roberts**
Byddai hen bobl ar goll heb y postman. Maen nhw'n edrych ymlaen at ei weld bob dydd. Yng nghefn gwlad mae'r postman yn gwneud ffafrau iddynt fel galw am dorth yn siop y pentre neu bostio llythyr.

**Haf Morgan**
Does gan bawb ddim cyfrifiadur, yn arbennig yn y trydydd byd ond mae ganddyn nhw, yn aml iawn, ffon. Fe fyddan nhw'n gallu cyfathrebu felly.

**Jane Willis**
Na, ddaw'r post ddim i ben. Mae cyfrifiaduron yn gallu torri, mae trydan yn gallu diffodd, mae trychinebau fel tsunami, daeargrynfeydd a chorwyntoedd yn gallu chwalu pob gwybodaeth electronig. Bydd ysgrifennu negeseuon a llythyrau ar bapur yn parhau!